# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-02-09)

**Dyddiad: 20 Ionawr 2008**
**Amser : 8.45am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Eitem 1: Ethol Cadeirydd

### Eitem 2: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 3: Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 3.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC233 - Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 16 Rhagfyr 2008. Fe'u gosodwyd ar 18 Rhagfyr 2008. Yn dod i rym ar 9 Ionawr 2009.

- yn darparu ar gyfer mesurau ynghylch trefniadau sy'n tanategu rheoli a defnyddio cyffuriau a reolir yn ddiogel o fewn cylch cyrff gwasanaethau iechyd penodedig yng Nghymru.

SLC234 - Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio)(Rhif 2) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 19 Rhagfyr 2008. Fe'u gosodwyd ar 19 Rhagfyr 2008. Yn dod i rym ar 12 Ionawr 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008 i ddarparu sail statudol ar gyfer y trefniadau newydd i gasglu a chael gwared ar stoc buchol trig sy'n oedolion y mae angen profion TSE arnynt. Mae'r Rheoliadau hefyd yn creu nifer o dramgwyddau am fethu â chydymffurfio â'r darpariaethau hyn a darpariaethau eraill mewn cysylltiad â gosod ar y farchnad anifeiliaid buchol byw a'u hallforio hwy a chynhyrchion sy'n tarddu ohonynt.

### Eitem 4: Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

### Eitem 4.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC230 - Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 9 Rhagfyr 2008. Fe'u gosodwyd ar 10 Rhagfyr 2008. Yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ail-wneud gyda diwygiadau Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006. Maent yn gorfodi Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 (fel y'i diwygiwyd) o Senedd Ewrop a'r cyngor yn gosod rheolau i atal, rheoli a dileu rhai mathau o enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy a hefyd yn gweithredu Penderfyniad y Comisiwn 2007/511 sy'n gwahardd rhoi ar y farchnad gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid buchol a anwyd neu a fagwyd o fewn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996 at unrhyw ddiben, yn esemptio'r anifeiliaid hynny rhag mesurau rheoli a dileu penodol a osodwyd yn Rheoliad (EC) Rhif 999/2001.

SLC231 - Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 10 Rhagfyr 2008. Fe'u gosodwyd ar 15 Rhagfyr 2008. Yn dod i rym ar 9 Ionawr 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig mewn perthynas â blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2009. Maent yn cydgrynhoi, gyda rhai newidiadau, Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2008, fel y'u diwygiwyd ("Rheoliadau 2008").

### Eitem 5: Unrhyw fater arall

### Eitem 6: Dyddiad y cyfarfod nesaf